

Dŵr Cymru: Prisiau i gartrefi ar gyfer 2011-12

Mae'r ddalen ffeithiau hon yn darparu gwybodaeth am brisiau 2011-12 Dŵr Cymru i gwsmeriaid. Mae'r wybodaeth wedi ei chodi o gynllun prisiau'r cwmni, yr ydym ni wedi ei chymeradwyo. Mae copi o'r cynllun ar gael gan y cwmni.

Sut mae biliau cartrefi heb fesurydd yn newid

Mae cwsmeriaid heb fesurydd yn talu am eu gwasanaethau drwy bris sy'n dibynnu ar werth ardrethol eu heiddo.



Newidiadau mewn prisiau ar gyfer 2011-12 (yn cynnwys chwyddiant gwerth 4.71%)

| | Pris sefydlog % y newid | Pris gwerth ardrethol % y newid | Bil ar gyfer eiddo â gwerth ardrethol o £100 % y newid | Bil ar gyfer eiddo â gwerth ardrethol o £300 % y newid | Cyfartaledd bil heb fesurydd 2011-12 (£) ¹ | Newid mewn cyfartaledd bil heb fesurydd 2011-12 (£) ¹ |
|----------------|-------------------------|---------------------------------|--|--|---|--|
| Dŵr | 5.3 | 5.3 | 5.3 | 5.3 | 196 | 9 |
| Carthffosiaeth | 3.9 | 3.9 | 3.9 | 3.9 | 275 | 9 |
| Cyfuniad | 4.4 | 4.4 | 4.4 | 4.4 | 471 | 18 |

¹ Efallai na fydd y ffigurau yn gwneud cyfanswm union oherwydd eu bod wedi eu talgrynnu.

Sut mae biliau cartrefi â mesurydd yn newid

Mae biliau â mesurydd yn cynnwys pris sefydlog a phris foliwmetrig. Mae'r pris foliwmetrig yn dibynnu ar swm y dŵr y mae cwsmer yn ei ddefnyddio.



Changes in charges for 2011-12 (including inflation of 4.71%)

| | Pris sefydlog % y newid | Pris foliwmetrig % y newid | % newid mewn bil ar gyfer cwsmer yn defnyddio 60m ³ /blwyddyn | % newid mewn bil ar gyfer cwsmer yn defnyddio 60m ³ /blwyddyn | Cyfartaledd bil â mesurydd 2011-12 (£) ¹ | Newid mewn cyfartaledd bil â mesurydd (£) ¹ |
|----------------|-------------------------|----------------------------|--|--|---|--|
| Dŵr | 3.4 | 1.3 | 1.9 | 1.6 | 123 | 3 |
| Carthffosiaeth | 4.4 | 1.2 | 2.6 | 2.0 | 177 | 4 |
| Cyfuniad | 4.1 | 1.3 | 2.4 | 1.8 | 301 | 7 |

¹ Efallai na fydd y ffigurau yn gwneud cyfanswm union oherwydd eu bod wedi eu talgrynnu.

Y terfynau pris sy'n gymwys

Bob pum mlynedd rydym yn gosod terfynau ar faint y gall pob cwmni godi ar ei gwsmeriaid. Yn 2009, gosodom derfynau pris ar gyfer 2010-15.

Mae'r tabl isod yn dangos terfynau pris Dŵr Cymru ar gyfer 2010-15. Dyma'r gyfran y gall y cwmni godi ei bris cyfartalog ar gyfer pob cwsmer. **Gall prisiau unigol godi gan fwy neu lai na'r terfyn cyffredinol.** Golyga hyn y gall bil un cwsmer fod yn wahanol iawn i fil cwsmer arall.

Rydym wedi caniatáu i Ddŵr Cymru godi ei bris cyfartalog cyffredinol ar gyfer ei holl gwsmeriaid (cartrefi a rhai sydd ddim yn gartrefi) gan 3.41% ar gyfer 2011-12. Mae hyn yn cynnwys chwyddiant gwerth 4.71% llai terfyn pris negyddol gwerth -1.3%. Mae'r ffigur ar gyfer chwyddiant wedi ei seilio ar y Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer y flwyddyn o fis Tachwedd 2009 hyd fis Tachwedd 2010.

Rydym yn gwirio prisiau pob cwmni i wneud yn siŵr nad oes ffafriaeth na gwahaniaethu gormodol ar gyfer unrhyw grŵp o gwsmeriaid.

Terfynau pris Dŵr Cymru (%) (ac eithrio chwyddiant)

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfartaledd ² 2010-15 |
|----------------|---------|-------------|---------|---------|---------|-------------------------------------|
| Dŵr | -3.5 | -1.0 | -0.5 | -0.7 | -0.7 | -1.3 |
| Carthffosiaeth | 0.4 | -1.6 | -0.4 | -0.2 | -0.6 | -0.5 |
| Cyfuniad | -1.3 | -1.3 | -0.4 | -0.4 | -0.6 | -0.8 |

2 Y cyfartaledd geometrig yw hwn o'r terfynau pris blyneddol.

Am beth mae'r biliau yn talu

Bydd y terfynau pris yr ydym wedi eu gosod yn galluogi Dŵr Cymru i wneud y canlynol:

- Gwella ansawdd dŵr yfed drwy fuddsoddi tua £60 miliwn yn ei weithfeydd triniaeth dŵr.
- Buddsoddi tua £29 miliwn i liniaru trallod llifogydd carthffosiaeth i gwsmeriaid mewn rhagor na 200 eiddo.
- Buddsoddi tua £90 mwliwn er mwyn lleihau gorlifiadau o weithiau triniaeth carthffosiaeth, a fydd yn gwella ymhellach safonau uchel dŵr nofio a dyfroedd pysgod cregyn ar arfordir Cymru.
- Ail-osod tua 600km o brif bibellau, gan roi terfyn ar y tarfu dro ar ôl tro i rai cwsmeriaid.
- Lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr drwy well triniaeth llaid, a fydd yn arbed bron i £4.5 miliwn i gwsmeriaid mewn gwariant gweithredu bob blwyddyn.

Draeniad dŵr wyneb

Mae cwsmer yn elwa o wasanaeth draeniad dŵr wyneb pan fydd dŵr glaw yn syrthio ar eu heiddo ac yn draenio i garthffosiaeth gyhoeddus. Os gallwch brofi nad ydych yn derbyn y gwasanaeth hwn, gallwch ofyn i Dŵr Cymru am ostyngiad yn eich bil carthffosiaeth.

Problemau i dalu eich bil

Dylai unrhyw gwsmer sy'n cael problemau i dalu ei filiau dŵr a charthffosiaeth gysylltu â'r cwmni cyn gynted â phosibl. Mae Dŵr Cymru yn cynnig ystod o ddewisiadau talu hyblyg, y gall un ohonynt efallai fod yn addas i'ch amgylchiadau unigol. Os, fodd bynnag, na allwch ddod i gytundeb â'r cwmni ynglŷn â chynllun talu addas, gallwch gysylltu â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yng Nghymru ar 0845 707 8267. Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cynrychioli cwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'n annibynnol ar y cwmnïau dŵr a ninnau.

Newid i gyflenwad gyda mesurydd

Gallai cwsmeriaid heb fesurydd sydd ddim yn defnyddio llawer o ddŵr, neu sy'n byw mewn eiddo gyda gwerth ardrethol uchel, arbed arian ar eu biliau dŵr drwy newid i fesurydd. Bydd eich cwmni dŵr yn gallu dweud wrthyfaint faint y gallech ei arbed.

Mae gan bob cwsmer cartref yr hawl i gael mesurydd wedi ei osod am ddim. Gall cwsmeriaid ddychwelyd i daliadau heb fesurydd os ydynt yn gwneud hynny o fewn blwyddyn i'r mesurydd gael ei osod. Byddai hyn hefyd am ddim.

Os yw'n anymarferol neu'n rhy ddrud i osod mesurydd, rhaid i'r cwmni gynnig pris a aseswyd. Brasamcan yw hwn o faint o ddŵr y gallai cwsmer ei ddefnyddio pe byddent ar fesurydd. Cysylltwch â Dŵr Cymru i gael gwybodaeth am ei bris a aseswyd, gan fod y rhain yn amrywio o gwmni i gwmni.

Chwefror 2011